

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 2 Mawrth 2016

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: CYDYMFFURFIO

CATEGORI: LLYTHYR GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL

Teitl: Cytundebau Gofal Iechyd Cyfatebol WHC/2016/013

Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad dd/b

I'w weithredu gan:

Prif Weithredwyr
Byrddau Iechyd Lleol
Ymddiriedolaethau'r GIG

Angen gweithredu erbyn:

Ar unwaith

Anfonwr:

Joanna Jordan, Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol y GIG

Enw(au) Cyswllt GIG Llywodraeth Cymru :

Tîm Cymorth Canolog Deddfwriaeth, Iechyd Meddwl, Llywodraethiant a Gwasanaethau Corfforaethol y GIG, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 4ydd Llawr Cathays Park 2, Caerdydd, CF10 3NQ

Dogfennau amgaeedig: Atodiad A

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU WHC/2016/013**Cytundebau Gofal Iechyd Cyfatebol**

1. Fel y gwyddoch, mae gan y DU gytundebau cyfatebol â rhai gwledydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Dylai ymwelwyr tramor sy'n gallu darparu tystiolaeth eu bod yn wladolion, yn ddinasyddion neu'n breswylwyr cyfreithiol un o'r gwledydd hyn gael eu heithrio rhag gorfod talu am driniaeth y mae'r cytundeb perthnasol yn rhoi'r hawl iddynt ei chael yn ystod eu cyfnod yn y DU.
2. Mae'r gwledydd canlynol y daeth eu cytundebau i ben ar 1 Ionawr 2016:
 - Armenia
 - Azerbaijan
 - Belarws
 - Georgia
 - Kazakhstan
 - Kyrgyzstan
 - Moldofa
 - Rwsia
 - Tajikistan
 - Turkmenistan
 - Ukrain
 - Uzbekistan.
3. Mae angen codi tâl ar unrhyw unigolyn o'r gwledydd uchod am driniaeth, oni bai eu bod yn bodloni unrhyw ran o'r meini prawf esemptiad fel y nodir yng *Nghanllawiau Ffioedd Ysbytai Ymwelwyr Tramor 2015*. Mae'r Adran Iechyd yn Lloegr yn ystyried newidiadau pellach posibl i'r rhestr sy'n weddill o gytundebau cyfatebol y DU, a byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y cawn wybod am unrhyw newidiadau pellach.
4. Byddwn yn cyhoeddi *Canllawiau Ffioedd Ysbytai Ymwelwyr Tramor* wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r newidiadau sydd wedi'u rhoi ar waith ers cyhoeddi'r canllawiau presennol. Bydd hyn yn cynnwys y newidiadau uchod i'r rhestr o wledydd o dan gytundeb cyfatebol. Mae fersiwn ddrafft o'r canllawiau diwygiedig ar hyn o bryd gyda'ch rheolwyr ymwelwyr tramor perthnasol er mwyn iddynt roi sylwadau a chyfrannu at y ddogfen ymgynghori derfynol.